
Cynorthwyo rhieni o dan ofal ac wedyn

A ninnau'n rhieni corfforaethol, rydyn ni wedi ymrwymo i helpu mamau a thadau sydd o dan ofal neu wrthi'n ei adael.

Mae'r siarter hon wedi'i llunio ar y cyd â rhieni a fu o dan ofal a phroffesiynolion sy'n gweithio dros elusennau ac awdurdodau lleol. Mae'r siarter yn disgrifio'r hyn y byddwn ni'n ei wneud i'ch helpu i gynllunio ar gyfer bod yn rhiant, pa gymorth fydd ar gael ichi wedyn a sut y byddwn ni'n lleddfu ystrydebau ac anfantais.

Cyn bod yn rhiant

Byddwn ni'n trafod rhyw a pherthnasoedd iach gyda chi ac yn gofalu y bydd cynghorion ar gael ynghylch cynllunio teulu ac atal cenhedlu.

Hoffen ni ichi ddechrau teulu ar adeg sy'n iawn i chi. Gallwn ni'ch helpu i baratoi ar gyfer bod yn rhiant. Er enghraifft, trwy gyfleoedd i ddysgu am ofalu am fabanod a phlant, mentora a chynghorion gan rieni profiadol (megis rhieni maeth) a'ch helpu i ddod i delerau â'ch meddyliau a'ch teimladau ynghylch y rianta rydych chi wedi'i brofi.

Pan fyddwch chi'n disgwyl plentyn neu'n dod yn rhiant:

Yn ystod bechiogrwydd, iechyd a lles y mamau a'u babanod yw ein blaenoriaeth. Rydyn ni wedi ymrwymo i hybu lles y tadau a'u cynnwys, hefyd.

Bydd anghenion ac amgylchiadau unigol yn wahanol. Bydd angen ond ychydig o gymorth ar rai rhieni, ond bydd angen rhagor ar eraill. Rydyn ni'n addo gwrandio arnoch chi, bod yn onest gyda chi a chydweithio â chi i ofalu bod:

- Popeth y bydd ei angen arnoch chi ar gael - gan gynnwys cartref, arian a nwyddau hanfodol.
- Eich hawliau'n hysbys ichi - gan gynnwys budd-daliadau, grantiau ac adnoddau yn eich awdurdod lleol.
- Medrau a gwybodaeth angenrheidiol gyda chi - megis sut i olchi baban a doddi cewyn amdano, pryd y dylech chi gysylltu â'r meddyg a sut mae cofrestru ar gyfer ysgol, deintydd neu optegydd. Bydd y cymorth hwnnw'n barhaus, gan y bydd yr hyn y dylech chi ei wybod yn newid yn ôl oed eich plentyn.

Gall magu plant fod yn foddhaol ond yn ymestynnol, hefyd. Rydyn ni'n addo cydweithio â chi fel y byddwch chi'n gwybod:

- Pwy sydd ar gael i'ch helpu - byddwn ni'n gofalu eich bod chi'n gwybod pwy all roi cynghorion a chymorth ichi, hyd yn oed fin nos neu dros y Sul.
- Pa wasanaethau a chymorth sydd ar gael yn eich awdurdod lleol neu'ch bro – byddwn ni'n trafod y dewisiadau gyda chi ac yn eich helpu i deithio yno lle bo angen. Gan gynnwys gwasanaethau sydd ar gael i bob rhiant yn ogystal â'r rhai ar gyfer rhieni a fu o dan ofal.

Byddwn ni'n gofalu y bydd seibiant ar gael os mynnwch chi. Gallai seibiant fod ar gyfer gorffwys neu gydio yn eich diddordebau, a byddwn ni'n gofalu y bydd canolfan hamdden a champfa ar gael ichi.

Gallwn ni'ch helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol. Byddwn ni'n eich helpu i barhau â'ch addysg, manteisio ar hyfforddiant neu ddod o hyd i waith. Gan gynnwys eich cynghori am yrfaeodd a rhoi cymorth ar gyfer gofalu am eich plentyn, teithio a phethau angenrheidiol eraill.

Wynebu ystrydebau ac anffafrio

Rydyn ni'n gwybod y gallai rhieni sydd neu a fu o dan ofal wynebu nod cywilydd ac anfantais. Mae hynny'n annerbyniol. Byddwn ni'n gweithredu fel a ganlyn:

- Gofalu bod adnoddau yn erbyn tybiaethau di-fudd am rieni sydd neu a fu o dan ofal.
- Datgan yn eglur na fydd yn dderbyniol cyfeirio rhieni at y gwasanaethau i blant yn ôl eu statws neu eu hanes o dan ofal. Anffafrio yw hynny. Dim ond pan fo tystiolaeth o beryglon y dylid codi pryderon am rianta.

Os codir pryderon ynghylch magu plant, byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- Gofalu bod eirioli a chynghorion cyfreithiol ar gael ichi.
- Gofalu na ddefnyddir eich hanes o dan ofal yn eich erbyn. Os bydd angen asesu safon eich rhianta, rydyn ni'n addo eich helpu a gofalu y byddwch chi'n cael eich asesu yn ôl eich sefyllfa bresennol nid eich hanes.
- Gofalu y byddwch chi'n cael pob cyfle teg ac y bydd pawb yn parhau'n dda. Lle rydych chi a'ch teulu'n poeni a fydd yr asesu'n deg, byddwn ni'n trafod y dewisiadau gyda chi megis cofnodi trafodaethau gyda gweithwyr cymdeithasol neu gael eich asesu gan weithiwr cymdeithasol annibynnol.

Byddwn ni'n eich helpu i ymateb i bryderon ynghylch magu plant. Bydd hynny'n ymwneud â'r canlynol:

- Deall beth sy'n digwydd a pha gynlluniau sydd ar waith.
- Cyfle ichi ddweud eich dweud.
- Cymorth ar gyfer lleddfu pryderon a dangos eich bod wedi newid. Gan gynnwys cymorth ynghylch tai, iechyd y meddwl neu gwnsela, cyrsiau cynnal perthynas neu rianta a gwasanaethau cyffuriau/alcohol.

Os ydych chi'n byw ar wahân i'ch plant

Gallai rhieni fod ar wahân i'w plant am nifer o resymau. Gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes pryderon ynghylch magu plant (megis pan fydd plant yn byw gyda rhiant arall), yn ogystal â phan fydd plant wedi'u symud dros dro neu'n barhaol.

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, byddwn ni'n eich helpu i feithrin a chynnal perthynas â'ch plentyn. Yn ôl y sefyllfa, gall y cymorth fod o natur ymarferol (megis eich helpu i weld eich plentyn a threulio amser gydag e), ariannol (megis treuliau teithio), teimladol (megis trafod eich meddyliau a'ch teimladau) neu weinyddol (megis cynghorion cyfreithiol ac eirioli er eich hawliau chi a rha'i'ch plentyn).

Os yw'ch plentyn wedi'i symud, fyddwn ni byth yn cefnu arnoch chi na rhoi'r gorau ichi. Byddwn ni'n treulio amser i'ch cefnogi chi a'ch helpu i drin a thrafod y goblygiadau ymarferol, ariannol a theimladol. Gan gynnwys eich cefnogi trwy'r achos yn y llys, mynychu

cyfarfodydd, trin a thrafod materion tai, rheoli newidiadau yn y budd-daliadau ac ymdopi â galar a cholled. Byddwn ni'n eich helpu i feithrin a chynnal perthynas â'ch plentyn, hyd yn oed os trwy gyswllt blwch llythyrau y bydd hynny. Mae cynnwys y siarter hon yn berthnasol ichi o hyd, a phan fyddwch chi'n barod, byddwn ni'n eich helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf

Ni yw eich rhieni corfforaethol, ac mae ceisio ein gorau er lles rhieni sydd neu a fu o dan ofal yn bwysig iawn inni.

Rydyn ni'n addo cynnig y cymorth hwn i rieni hyd at 25 oed ac yn disgwyl cosb os nad ydyn ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau.

At hynny, rydyn ni'n addo adolygu ein gwaith yn fynych a pharhau i gydweithio â rhieni, gwasanaethau ac elusennau i ofalu bod digon o gymorth a chyfleoedd teg i rieni sydd neu a fu o dan ofal.



Mae'r siarter hon wedi'i llunio gan CASCADE ar y cyd â VFCC, NYAS Cymru a TGP Cymru gyda chymorth ariannol Cyfrif Cyflymu Effeithiau Prifysgol Caerdydd o dan nawdd Cyngor yr Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ariannodd yr ymchwil a arweiniodd at lunio'r siarter hon.

Llofnodwyr

Enw'r Cyngor

Safle (Swyddog)

Enw

Enw'r Cyngor

Safle (Gwleidyddwr)

Enw

Enw'r Cyngor

Hyrwyddwr Ymadawr Gofal / Ymadawr Gofal